





O fis Mawrth 2020 ymlaen, addasodd ein tîm eu set sgiliau amrywiol i gefnogi'r ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Rydym wedi ymateb i'r sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym drwy gyfuno'r dystiolaeth orau sydd ar gael a chynhyrchu nifer o allbynnau newydd cysylltiedig â COVID-19. Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon gyda llunwyr polisi er mwyn eu cefnogi i wneud penderfyniadau brys ac wedi'u llywio gan dystiolaeth.

Er ein bod yn darparu'r gefnogaeth hon rydym wedi cynnal gweithgareddau arfarnu arferol yn ystod y pandemig, fel y gallwn barhau i gynnig dull strategol a chenedlaethol ar gyfer nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau newydd mewn lleoliadau iechyd a gofal ar gyfer COVID-19 a thu hwnt.



Rydym wedi cyhoeddi 11 o adolygiadau cyflym yn ymwneud â COVID-19

Gallwch ddarllen ein hadroddiadau ar ein tudalen we COVID-19 benodol: [www.healthtechnology.wales/covid-19](http://www.healthtechnology.wales/covid-19)

Rydym wedi darparu **arfarniadau tystiolaeth a chyngor arbenigol** i nifer o bwyllgorau strategol COVID-19 **Llywodraeth Cymru** er mwyn llywio defnydd technolegau COVID-19, yn cynnwys:

- Y Gell Cyngori Technegol
- Grwp Gorchwyl a Gorffen Cynllun Prawf
- Y Gell Strategaeth Ymchwil
- Grwp Therapi Plasma Ymadfer

Rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein cysylltiadau yn y DU ac yn rhyngwladol drwy:

- Gydweithio gyda chyrrff asesu technoleg iechyd yn y DU ac Iwerddon ar nifer o bynciau COVID-19.
- Gweithio gyda Chyngor Gwyddonol NICE i ddarparu cyngor cyflym i ddiwydiant.
- Rhannu wybodaeth gyda chyrrff asesu technoleg iechyd rhyngwladol mawr
- Cynnig mynediad am ddim at ein cyhoeddiadau a gwaith ymchwil.
- Ymgysylltu ag arbenigwyr allanol er mwyn sgrinio ac adolygu ardystiad dyfeisiau meddygol.
- Hwyluso cysylltiad rhwng datblygwyr technoleg a rheoleiddwyr y DU.
- Diweddarau Crynodeb Tystiolaeth sy'n cyfeirio at ffynonellau tystiolaeth o ansawdd da.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o **EUnetHTA**.

Roedd hyn yn cynnwys bod yn gydawdur ar Adolygiad Cydweithredol Cyflym Ewrop Gyfan ar brofi gwrthgyrff COVID-19.

Rydym yn arwain dau adolygiad Ewrop gyfan arall ar brofi diagnostig moleciwlaidd a therapi plasma ymadfer.

Ragor o wybodaeth: [www.eunetha.eu](http://www.eunetha.eu)

**Mae'r technolegau rydym wedi'u harfarnu yn cynnwys:**

- Profion i lywio diagnosis (EAR025)
- Therapi plasma ymadfer (TER203)
- Cytokine adsorbers (TER201)
- Apiau ffôn clyfar ar gyfer (TER198)
- Delweddu uwchsain yr ysgyfaint ar gyfer (TER211)
- Ailbroesu cyfarpar diogelu personol defnydd untro (TER206)
- Diogelwch gynau diogelu personol (TER209)
- Gorchuddion wyneb
- Rhaglenni negeseua
- Ocsifesuriad

- Adolygiadau Cost
- Adroddiadau Arfarnu Tystiolaeth
- Crynodebau Cyflym
- Adroddiadau Archwilio Pwnc



“Tynnwyd ein sylw at eich adolygiad tystiolaeth rhagorol ar effeithiolrwydd PCR a phroffion gwrgyrrff COVID-19. Rydym yn gwerthfawrogi gallu cyfeirio at hwn a defnyddio ei gasgliadau.”

Debbie Sigerson, Iechyd Cyhoeddus yr Alban

“Roedd adroddiad HTW yn rhoi manylion y sail tystiolaeth yn ymwneud ag anwedd perocsid hydrogen gweddillio... Gwnaeth hyn lywio trafodaethau'r gr p pedair gwlad sy'n edrych ar atebion posibl i alluogi ailbroesu cyfarpar diogelu personol. Gwerthfawrogwyd agwedd hyblyg ac ymatebol HTW yn fawr wrth gynnal yr ymchwil hwn.”

Pete Philips, Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol

## Ymgysylltwyd â sefydliadau allweddol:



Ydych chi'n ymwybodol o dechnoleg COVID-19 addawol? Cyfeiriwch hi at HTW: [www.healthtechnology.wales/suggest-a-topic](http://www.healthtechnology.wales/suggest-a-topic)

Cofnodwyd yr holl ystadegau digidol rhwng 16 Mawrth - 14 Awst